

## **Gofalwr Plant Grant Sefydlu 2016/17**

Mae Grant Sefydlu fel Gofalwr Plant yn fenter wedi'i ariannu gan Bartneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar Gofal Plant a Chwarae (PBCGPCh) Blaenau Gwent. Cyflwynwyd y grant i gefnogi'r holl unigolion sy'n dymuno sefydlu busnes fel Gofalwyr Plant Cofrestredig, yn darparu safon uchel o ofal a dysgu, i helpu plant dderbyn y cychwyn gorau mewn bywyd.

### **Pwy sy'n cael gwneud cais?**

- Y rhai hynny sy'n Cofrestru fel Gofalwyr Plant

### **Swm y Grant**

- £750

### **Cymeradwyo'r Grant**

Ni chaiff y Grant Sefydlu fel Gofalwr Plant ond ei gymeradwyo:

- Lle gellir arddangos angen am wasanaeth Gofal Plant yn ward yr ymgeisydd fel y nodir yn Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2014-2017, neu
- O gwblhau Holiadur Gofalwyr Plant sy'n dangos y galw am Ofal Plant yn ward yr ymgeisydd trwy ymchwil marchnad.



## Ynglŷn â'r Grant

Mae i'r Grant Sefydlu fel Gofalwr Plant, 3 chydadrannau ac fe ddylai ymgeiswyr ddangos y dystiolaeth ganlynol:

1. Cwblhau :
  - Cwrs CYPOP5 £189.60 (ar-lein) neu £238.80 (yn seiliedig ar yr ystafell ddosbarth)
  - Cwrs Cymorth Cyntaf Pediatrig £20 (a ddarperir EYDCP)
  - Hyfforddiant Hylendid Bwyd Sylfaenol Lefel 2 £20 (a ddarperir gan EYDCP)
  - Cofrestriad CSSIW
  
2. Aelodaeth Cymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar (PACEY) gyda chefnogaeth:
  - Pecyn Ansawdd Cychwynnol cynhwysfawr gwerth £158 sy'n cynnwys aelodaeth flynyddol PACEY, yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, contractau gofal plant, ffurflenni cofnodi plant, cofrestri presenoldeb, llyfrau cyfrifon, ffolder damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth a blanced tân.
  - Mae gweddill y Grant yn cynnwys lwfans ar gyfer cyfarpar.
  
3. Ymrwymiad i ymgymryd â Chynllun Gwella Ansawdd Blaenau Gwent

## Sut mae'r Grant yn cael ei dalu?

Mae'r Grant Sefydlu fel Gofalwr Plant yn cael ei dalu fel ôl-ddyled ar dderbyn:

- Tystysgrifau'r Cwrs CYPOP5, Cymorth Cyntaf Pediatrig a Bwyd a Hylendid Sylfaenol Lefel 2 (**ynghyd â derbynebau fel prawf o'r taliadau**)
- Cofrestru gyda CSSIW

- Aelodaeth PACEY ar gyfer y Pecyn Ansawdd Cychwynnol (**ynghyd â derbynebb fel prawf taliad**)
- Derbynebau pryniant cyfarpar angenrheidiol.



### **Pryd gewch chi wneud cais?**

Gellir dychwelyd ceisiadau ar unrhyw adeg hyd at Ionawr 31<sup>ain</sup>, 2017 at: Kara Kershaw, Swyddog Datblygu Busnes Gofal Plant, Tîm Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Tîm Gwasanaethau Integredig, Canolfan Integredig Calon y Cymoedd, Stryd Fawr, Blaenau NP13 3BN

### **Sut i wneud cais**

Cwblhewch y ffurflen amgaeedig a'i dychwelyd gyda'r holl dystiolaeth i'w chefnogi at Kara Kershaw yn y cyfeiriad uchod. Rhaid teipio neu brintio'r holl ffurflenni mewn **INC** du.

Os oes angen unrhyw help arnoch wrth gwblhau'r ffurflen gais neu'n dymuno gwybodaeth bellach, cysylltwch â Kara Kershaw ar 01495 354772.

### **Beth sy'n digwydd nesaf...**

Anfonir llythyr o gydnabyddiaeth o fewn 10 niwrnod gwaith o dderbyn eich cais. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, fe fyddwch yn derbyn llythyr o gymeradwyaeth a chais am anfonebau/derbynebau fel prawf taliadau ar gwblhau'r cofrestriad. Fe fydd trosglwyddiad banc yn cael ei arwyddo wedi inni fodloni ar yr anfonebau a dderbynnir.

### **Gwerthusiad**

Fe fydd gofyn ichi gwblhau a dychwelyd, 6 mis wedi cymhwyso fel Gofalwr Plant:



- Ffurflen Monitro yn amlinellu sut wnaeth y grant helpu tuag at eich sefydlu fel gofalwr plant.

